# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION Y PWYLLGOR CYNGHORI'R CABINET – DATBLYGU

## A GYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGOR 5, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DYDD MERCHER, 15 MEHEFIN 2016 AM 3.00 PM

**YN BRESENNOL:** Bu'r cynghorydd P Downing (Cadeirydd) yn llywyddu

| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
|---|---|---|
| C Anderson | D W Cole | C R Doyle |
| P Lloyd | P M Matthews | T M White |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Keith Coxon | Swyddog Prosiectau a Pherfformiad Rheoli Gwastraff |
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Mark Thomas | Arweinydd y Grŵp Rheoli Traffig a'r Rhwydwaith Priffyrdd |
| Ian Whettleton | Swyddog Adrannol Rheoli Gwastraff |
| Fran Williams | Arweinydd y Tîm Gorfodi, Tipio Anghyfreithlon a Sbwriel |

6 **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr P B Smith a C Thomas.

7 **DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd buddiannau.

8 **COFNODION.**

**PENDERFYNWYD** bod cofnodion Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Ddatblygiad a gynhaliwyd ar 20 Ebrill 2016, Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Ddatblygiad Arbennig a gynhaliwyd ar 11 Mai 2016 a Phwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Ddatblygiad a gynhaliwyd ar 19 Mai 2016 yn cael eu cymeradwyo a'u llofnodi fel cofnod cywir.

9 **NEILLTUO STRYD Y GWYNT I GERDDWYR.**

Rhoddodd Mark Thomas, Arweinydd Grŵp Rheoli'r Rhwydwaith Priffyrdd a Thraffig y diweddaraf ar ddulliau i wneud Stryd y Gwynt yn ardal i gerddwyr.

Gofynnodd Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Ddatblygiad yn ei gyfarfod ar 20 Ebrill 2016 fod swyddogion yn bresennol i gytuno ar gwmpas yr adroddiad, a fyddai'n canolbwyntio ar sut i wneud Stryd y Gwynt yn ardal i gerddwyr, yr effaith o ganlyniad i hynny ar rwydwaith y priffyrdd, trefniadau mynediad a rhoi enghreifftiau o strydoedd llwyddiannus i gerddwyr mewn dinasoedd eraill.

Trafododd y pwyllgor yr ystyriaethau amrywiol a chytuno mai'r ffordd fwyaf priodol i symud ymlaen â'r cynllun oedd defnyddio ymagwedd fesul cam gan ddefnyddio Gorchymyn Traffig Arbrofol am gyfnod prawf hyd at 18 mis, gan ymgynghori â phartïon â diddordeb, ac yn yr amser hwnnw cesglir sylwadau ac awgrymiadau, eu cofnodi ac yna eu hystyried, cyn cwblhau'r cynllun yn ffurfiol (selio) gyda'r trefniad yn dod yn un parhaol.

**PENDERFYNWYD** y byddai'r adroddiad yn cael ei nodi**.**

## 10 POLISI TIPIO'N ANGHYFREITHLON.

Adroddodd Ian Whettleton, Swyddog Adrannol Rheoli Gwastraff a Fran Williams, Arweinydd y Tîm Gorfodi, Tipio Anghyfreithlon a Sbwriel ar y polisi a'r gweithdrefnau presennol o ran tipio anghyfreithlon yn Ninas a Sir Abertawe.

Nodwyd ganddynt y blaenoriaethau ar gyfer gwastraff ac ailgylchu yng Nghynllun Gwella'r cyngor, a'r diffiniad ac esboniwyd y gweithdrefnau presennol ar gyfer ymdrin â thipio anghyfreithlon. Cafwyd trafodaeth ynghylch y mentrau amrywiol yr ymgymerwyd â nhw.

Diolchodd y pwyllgor i'r swyddogion am esboniad llawn gwybodaeth am y polisi presennol.

**PENDERFYNWYD** y dylai Polisi Tipio Anghyfreithlon drafft gael ei gyflwyno i Bwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Ddatblygu ar 20 Gorffennaf 2016.

## 11 RHEOLI GWASTRAFF - SIOP AILGYLCHU.

Daeth Keith Coxon, Swyddog Prosiectau a Pherfformiad Rheoli Gwastraff i'r cyfarfod i roi'r diweddaraf i'r pwyllgor ar y trefniadau ariannol o ran incwm a gwariant y Siop Ailddefnyddio yn y Safle Byrnu.

Roedd y cyfleuster yn y broses o gael ei ymestyn, a fyddai'n galluogi'r awdurdod i ystyried nifer o fentrau newydd i hybu incwm, derbyn mwy o nwyddau a hyd a lled manteision cymunedol y cyfleuster.

Yn ogystal, byddai'r Cabinet yn ystyried yr adolygiad comisiynu: Rheoli Gwastraff yn ei gyfarfod ar 16 Mehefin 2016.

**PENDERFYNWYD** y dylid rhoi cyflwyniad ar y Siop Ailddefnyddio i Bwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Ddatblygiad ar 19 Hydref 2016.

## 12 CYNLLUN GWAITH 2016-2017.

**PENDERFYNWYD** ar y canlynol**:**

1) Dylai'r Pwyllgor Arbennig ar 6 Gorffennaf 2016 am 10am ganolbwyntio ar y Strategaeth Mannau Agored;

2) Dylai'r pwyllgor ar 20 Gorffennaf 2016 dderbyn yr eitemau canlynol:

a. Polisi Tipio Anghyfreithlon Drafft;
b. Polisi Coed.

3) Dylai'r eitemau canlynol gael eu hystyried yng nghyfarfodydd y dyfodol:

a. Adborth ar ymweliadau â Chanolfannau Siopa Ardal (ail-ymweliad â'r Mwmbwls);
b. Ystadau Tai sy'n cynnwys strydoedd (preifat) heb eu mabwysiadu;
c. Safleoedd Amwynderau Dinesig (Rheoli Gwastraff)
ch. Y diweddaraf am y Siop Ailddefnyddio (Hydref 2016).

Daeth y cyfarfod i ben am 4.06 pm

**CADEIRYDD**